

## Crynodeb Penderfyniadau Cyngor Tref Y Bala Ebrill 2021- Mawrth 2022

Dyddiad	Datgan Buddiant	Presennol	Penderfyniadau a Gytunwyd
1/4/21		<p>Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Carol Rowlands, John Caradog Williams <i>(ffôn)</i>            Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw <i>(Clerc)</i>.</p>	<p>Cytunwyd i anfon i ddiolch i'r Pennaeth a'r holl staff dysgu a'r staff cymorth i gyd am weithio mor eithriadol o galed.</p> <p>Gofynnwyd i'r Cyngorydd Dilwyn Morgan holi ymhellach yng Ngwynedd am y sefyllfa masnachu ar bafin ac mewn bae parcio.</p> <p>Cytunwyd i holi cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru pan ddaw i'r cyfarfod nesaf pa goed a fwriedir eu torri.</p> <p>Cymeradwywyd cais <b>NP5/53/LB53M</b> Spar, 39 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AF</p> <p>Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.</p> <p>Glanhau llochesi bws – cytunwyd i barhau gyda'r telerau blaenorol er y bydd person gwahanol yn gwneud y gwaith o lanhau am weddill y cytundeb.</p> <p>Cytunwyd i edrych eto ar y baneri wrth y Ganolfan Hamdden a gofyn i JC Williams ei hadnewyddu os bydd angen.</p> <p>Cytunodd Dilwyn Morgan i edrych mewn i oryrru o gwmpas Awel y Coleg, a'r parcio achlysurol ar y ffordd fawr wrth yr ysgol.</p>
4/5/21		<p>Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts Carol Rowlands, John Caradog Williams <i>(ffôn)</i>            Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw <i>(Clerc)</i>.</p>	<p>Sedd wag: cytunwyd i wahodd Heledd Roberts</p> <p>Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i fynegi gwrthwynebiad i gais y Badell Aur i roi byrddau a chadeiriau ar y palmant.</p> <p>Cymeradwywyd ceisiadau cynllunio</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>i. <b>NP5/53/582A</b> Codi estyniad un-llawr ar yr ochr 22 Mawnog Fach, Bala</li> <li>ii. <b>NP5/53/LB212</b> Islyn Heol Arennig</li> </ol>

			<p>Cymeradwywyd Cysoni'r Banc 2020-21 a thudalen 2 o'r Datganiad Blynnyddol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol.</p> <p>Cytunwyd i dalu anfonebau: Cyngor Gwynedd: Rhent Y Domen £1; Yswiriant (Zurich £315.03) ; Hill &amp; Roberts £144 (yn cynnwys TAW); Cyflog (mis Ebrill); Ffeiliau'r Cofnodion (rhannu gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn ) £17.00; Cronfa'r Maer: cytunwyd i sicrhau fod £800 yng nghyfrif Cronfa'r Maer.</p> <p>Cais am enw i'r datblygiad ym mhen draw Cysgod y Coleg – cytunwyd ar yr enw <u>Dôl Tryweryn</u></p>
3/6/2021		<p>Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Alun Price, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Carol Rowlands Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). Andrew Basford, Cyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Cytunwyd i ysgrifennu at y pencadlys am y pwysau sydd ar y gwasanaeth ambiwlans yn lleol.</p> <p>Cytunwyd i wahodd Julian Birley i roi cyflwyniad yng nghyfarfod Gorffennaf.</p> <p>Cytunodd y Cyngor i dderbyn Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Cytunwyd gyda'r Datganiadau Rheolaethol. Cymeradwywyd anfon y Ffurflen at yr Archwilydd Allanol.</p> <p>Llythyr Cymdeithas yr Iaith: cytunwyd i arwyddo a dywedodd y Maer y byddai'n bresennol yn Rali Tryweryn ar 10/7/21 i arwyddo'n gyhoeddus.</p>
1/7/2021		<p>Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).</p>	<p>Cytunwyd i anfon at NMWTRA am y nifer o ddamweiniau oherwydd goryrru ar yr A494 dros bont Tryweryn.</p> <p>CYMERADWYWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gosod pwynt gwefru cerbydau trydan, piler bwydo a gwaith cysylltiedig ym Maes parcio ger Y Grîn, Y Bala.</li> <li>• Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo Llygad y Llyn, 6 Maes Treflyn, Bala. LL23 7YZ</li> <li>• <b>NP5/53/581</b> 32 Bro Eryl, Bala LL23 7AS Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn</li> </ul>

			<p>Cytunwyd i gefnogi ymgais gan Gyngor Cymuned Pistyll i Gyngor Gwynedd lunio strategaeth parthed parcio dros nos.</p> <p>Cytunwyd i anfon neges o ddiolch i Sion Llewelyn am ei wasanaeth arbennig iawn dros 36 mlynedd i'r dre ac i'r ardal.</p>
2/9/2021		<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Lis Puw (Clerc).</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams, Carol Rowlands.</p>	<p>Cymeradwywyd cais <b>NP5/53/LB67Y</b> "Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddiwygio gosodiad y grisiau, lleoliad y boeler a ffliw, adeiladwaith y to a'r canopi dros y brif fynedfa 1 Tai'r Aran, Heol Plasey, Y Bala. LL23 7SW".</p> <p>Ni chytunwyd i gais Rheilffordd Llyn Tegid i'r Cyngor osod "Cyfarfod cyhoeddus i drafod y cais cynllunio" fel eitem yng nghyfarfod arferol y Cyngor.</p> <p><b>Materion Cyllid:</b> Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a nodwyd derbyn ail hanner y taliad praesept. Cymeradwywyd talu biliau o dan gytundebau (cyflog Clerc a glanhau llochesi bws). Cytunwyd i dalu'r gost uwch o gynnal y wefan gan fod mwy a mwy o ddogfennau yn gorfod cael eu gosod yn fisol ar y wefan. Nid oedd ceisiadau am gefnogaeth ariannol, ond cytunodd y Cyngorwyr i wneud ymholiadau ar sut y gellir bod o gymorth i bobl hŷn.</p> <p><b>Parc Cenedlaethol Eryri:</b> Cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor unrhyw geisiadau ym Mhenllyn a all fod o fudd i drigolion Y Bala. Arolwg laith – cytunwyd i adael i unigolion ymateb. Pecyn plannu coed – cytunwyd i anfon gwybodaeth at Bennaeth Ysgol Godre'r Berwyn ac at swyddogion yr Ardd Gymunedol.</p> <p><b>Cyngor Gwynedd:</b> Cytunwyd i gynnig cyfarfod Lindsey Ellis Edwards dros Zoom gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref - Rhys Evans, Elin Hedd, Heledd Roberts ac Alun Price.</p> <p><b>Cais i fabwysiadu mainc a gosod plac coffa ar fainc:</b> oherwydd gwaith ar yr arglawdd cytunwyd i awgrymu bod yr ymgeisydd yn cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru .</p>

7/10/21		<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Ivora Jones, Tony Parry, <i>Alun Price, Eifion Roberts,(trwy gyfrwng Zoom)</i>, Lis Puw (<i>Clerc</i>).</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> y Dirprwy Faer Sharon Evans, Eluned Jones, Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd).</p>	<p>Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i holi am eu polisi gosod tenantiaid gyda phroblemau mewn ardal wledig lle nad oes cefnogaeth wrth law. Holir am y mesurau sydd gan Gyngor Gwynedd i osgoi bod eu tenantiaid yn amharu ar eraill, a'r gefnogaeth a roddir i denantiaid allu ymgartrefu'n dawel a hapus yn Y Bala. Pan ddaw ymateb oddi wrth Gyngor Gwynedd, cytunwyd i drafod o dan arweiniad y Cyngorydd Dilwyn Morgan.</p> <p>Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd osod 8 garland ar bolion y Stryd Fawr.</p> <p>Cytunwyd i neilltuo hyd at awr a hanner o gyfarfod Tachwedd yn bennaf i drafod cynlluniau ar gyfer 2022-23 (neu 2022-25).</p> <p><b>NP5/53/588</b> Cytunwyd i ystyried cais cynllunio i adeiladu estyniad ochr deulawr a garej/gweithdy yn yr ardd yn 14 Ffordd y Gerddi, Y Bala. LL23 7AY dros e-bost pan ddaw manylion y cais ar wefan y Parc. Anfonir y manylion a disgwylir barn y cyngorwyr erbyn 15/10/21.</p> <p>Cytunwyd i dalu anfonebau: Glanhau Llochesi; HMRC; cyflog ( y rhain yn daliadau o dan Gytundeb); Cyngor Gwynedd £252 am archwiliad mewnol.</p> <p>Cytunwyd i symud i fancio ar y we, yn dilyn cyngor Un Llais Cymru.</p> <p>Cytunwyd i gyfrannu £350 i Deulu Berwyn.</p> <p>Cytunwyd i ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd a thynnu sylw'r Cyngorydd Dilwyn Morgan at y problema gyda'r toiled anabl a gyda'r offer golchi dwylo yn y Grin a'r Plase.</p> <p>Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngorydd Dilwyn Morgan a'r Grŵp Busnesau at chwyn yn y Stryd Fawr.</p>

2/12/21		<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Heledd Roberts, John Caradog Williams (<i>Canolfan Henblas</i>) Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands (<i>trwy gyfrwng Zoom</i>) Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (<i>Clerc</i>).</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b>Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Elin Hedd ac Eluned Jones.</p>	<p><b>Ystyried Cynllun Datblygu Cyngor Tref Y Bala :</b> Cytunwyd i ohirio'r drafodaeth tan y flwyddyn newydd. Cytunwyd ymhellach i wahodd pobl ifanc a oedd wedi creu cyflwyniad dramatig ar ddyfodol Y Bala i gyflwyno eu syniadau i'r Cyngor ac i Mabon ap Gwynfor mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor. Byddai hyn, a derbyn gwybodaeth am Gynllun Ardal Llanuwchllyn, ynghyd â mwy o sesiynau dan ofal Gwynedd 2035 yn rhoi sail gadarn ar gyfer trafodaeth ystyrlon o'r ffordd ymlaen i'r Bala.</p> <p><b>Materion Cyllid Tachwedd:</b> Cadarnhawyd taliadau o dan Gytundebau</p> <p><b>Cais Cynllunio:</b> NP5/53/589 14 Mawnog Fach, Bala. LL23 7YY Codi estyniad unllawr ar y blaen (e-bostiwyd) – Cymeradwywyd y cais.</p> <p>Cytunwyd ar daliadau o dan y pennawd Cytundebau (Glanhau llochesi; Clerc) Cytunwyd i dalu SLCC: £49.50; Gwefan £250; Cyngor Gwynedd cyfraniad at y toiledau 2021/22 £8000; Debyd uniongyrchol Ico £35;Clwb pêl droed Y Bala £96</p> <p>Gofynwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid wneud argymhellion i'r Cyngor llawn parthed cyfraniadau cymunedol a ohiriwyd ers Mawrth 2021 oherwydd Covid.</p> <p>Gofynwyd i'r Clerc geisio cael manylion llawn incwm parcio'r meysydd yn Y Bala a fydd yn cynnwys ad-daliad TAW a grant Llywodraeth Cymru i Gyngor Gwynedd ar gyfer y toiledau.</p>
6/1/2022	<p>Carol Rowlands ym mater 13i (Cais cynllunio cymydog)</p> <p>Tony Parry ym mater 13iv (Cais Cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid</p>	<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams (<i>ffôn</i>) Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (<i>Clerc</i>). <i>Ivora Jones (wedi cysylltu ymlaen llaw trwy'r ffôn)</i></p>	<p>Llywodraeth Cymru: Cytunwyd i ymateb fel Cyngor i Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor <u>byr</u> erbyn trwy gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru. Pwysleisiwyd mor bwysig ydyw ymateb yn unigol hefyd.</p> <p>Cytunwyd i wahodd Andrew Basford i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.</p> <p>Cyllid: Cytunwyd i dderbyn y Cofnodion, y Gyllideb a'r argymhellion, yn cynnwys cadw lefel y Praesept yr un fath a llynedd.</p>

	<p>Eluned Jones ym mater 8iii (aaelod o bwyllgor y Plase)</p>		<p>Cymeradwywyd gwneud yr argymhellion am weddill cyfraniadau ariannol (o gyllideb diwedd Mawrth 2021) fel a ganlyn: Plase £200; apel Eisteddfod yr Urdd Dinbych £200.</p> <p>Cymeradwywyd taliadau o dan Cytundeb: Cyflog y Clerc, PAYE, Glanhau Llochesi (Rhagfyr).</p> <p>Toiledau: cymeradwywyd talu cyfran Cyngor Tref Y Bala tuag at y toiledau cyhoeddus am y flwyddyn 2021-22, sef £8000.</p> <p>Cynllunio: <b>NP5/53/570A</b> Adeiladu to brig dros y garej, gosod estyniad dormer ar hyd lled yr edrychiad cefn 25 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT <i>Cymeradwywyd y cais, gan dynnu sylw Parc Cenedlaethol Eryri at yr angen i ymgynghori gyda cymdogion am y posibilrwydd o gollu goleuni.</i></p> <p><b>NP5/53/LB301L</b> Adeiladu estyniad cefn unllawr Plas yn Dre, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7LU – <i>cymeradwywyd.</i></p> <p><b>NP5/70/LB28 a NP5/53/576</b> Cytunwyd i'r cynghorwyr gyfarfod ar 13/1/21 am 7.00pm. Cytunwyd hefyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i ofyn am estyniad byr nes bo Cyngor Tref Y Bala wedi did i benderfyniad.</p>
<p>13/1/22 Cyfarfod Arbennig</p>		<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Eifion Roberts (dros Zoom), Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams Lis Puw (<i>Clerc</i>).</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> Elin Hedd (derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig); Alun Price (buddiant oherwydd yn gyflogedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru)</p>	<p><b>NP5/70/LB28</b> Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trêrn a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala.</p> <p><b>CYTUNWYD</b> i beidio a gwneud sylwadau oherwydd nad oedd gwybodaeth arbenigwyr wedi eu cyhoeddi ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri</p> <p><b>NP5/53/576</b> Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan dren a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol</p> <p><b>CYTUNWYD</b> i gymeradwyo'r cais, ond dymunwyd tynnu sylw Parc Cenedlaethol Eryri at rai materion allweddol sydd angen asesiad gan arbenigwyr annibynnol</p>

3/2/2022		<p><b>Presennol:</b> Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Elin Hedd (<i>dros Zoom</i>), Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price (<i>dros Zoom</i>), Eifion Roberts Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams</p> <p>Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd ), Lis Puw (<i>Clerc</i>).</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> Ivora Jones,</p> <p>Andrew Basford, Cyfoeth Naturiol Cymru (cyflwyniad dros Zoom)</p>	<p><b>Materion Cynllunio:</b> NP5/53/LB223B Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddymchwel rhan o'r estyniad unllawr presennol ac adeilad allanol, ail-adeiladu ac ymgorffori'r adeilad allanol yn gegin, gosod drysau gwydr, to brig llechi newydd gyda ffenestr to, Ail agor hen ffenestr a dymchwel waliau mewnol. Dymchwel rhan o'r estyniad a'r cwt glo yn y cefn ac adeiladu estyniad unllawr Goleufan, 16 Ffrydan Road, Bala, LL23 7RT - <b>Cymeradwywyd.</b></p> <p>Cymeradwywyd yr anfonebau i'w talu: rhent Canolfan Henblas (£228); nwyddau Nadolig o Siop Kel (£100); Cyflog; glanhau llochesi – mis Ionawr.</p> <p>Cytunwyd i gynnig y glanhawr lloches i glirio'r tyfiant ar do un lloches am £30 lloches.</p> <p>Cytunwyd i gyfrannu £10 at elusen am waith gwnïo un faner</p> <p>Cytunwyd i wahodd Swyddogion Cyngor Gwynedd i drafodaeth ar safleoedd llochesi bws yn Y Bala.</p>
----------	--	--	---